



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Comisiwn Addysg Cymru

Cyfarfod Tri: Dydd Iau 12 Hydref 2017
Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, Llundain, WC2N 6EZ

www.athrofa.cymru

Comisiwn Addysg Cymru

Yn bresennol: Yr Athro Dylan Jones, Deon, Yr Athrofa: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athro Trevor Gale, Deon, Ysgol Addysg, Prifysgol Glasgow; Laura Perille, Llywydd a Phrif Swyddog Gweithredol, EdVestors; Yr Athro David Woods, prifysgolion Warwick a Llundain; yr Athro Mick Waters, Prifysgol Wolverhampton; Yr Athro Keri Facer, Educational and Social Futures, Prifysgol Bryste; yr Athro Jonathan Shepherd, Cyfarwyddwr Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas, Prifysgol Caerdydd; Yr Athro Peter Rabbett, Yr Athrofa: Athrofa Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Gareth Evans, Yr Athrofa: Athrofa Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ailgynullodd trydydd cyfarfod Comisiwn Addysg Cymru banel rhyngwladol i rannu eu harbenigedd i gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru o wella addysg. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i fod yn llais annibynnol, cyfaill beirniadol a ffynhonnell cyngor i'r gymuned addysg. Un o elfennau craidd Yr Athrofa yw'r Comisiwn sy'n sicrhau ein bod ni'n wynebu tuag allan, gan ddysgu o'r arfer gorau a'r ymchwil mwyaf effeithiol ar addysgu a dysgu, arweinyddiaeth a datblygiad system sy'n ei gwella ei hun.

Canolbwyntiodd y cyfarfod yn bennaf ar strategaeth addysg hirdymor newydd Llywodraeth Cymru. Ychydig cyn y cyfarfod ym mis Medi 2017, lansiodd Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl ac yn y ddogfen hon nodir taith diwygio'r genedl a 'phedwar amcan sy'n galluogi' ac a ddyluniwyd i gefnogi gwelliannau. Yn ei rhagair gweinidogaethol, eglura Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, mai ein cenhadaeth gyffredinol yw "codi safonau, lleihau'r bwloch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n achos balchder a hyder cenedlaethol". Gwahoddwyd y Comisiwn i adfyrio ar agweddau allweddol ar y ddogfen ac i ystyried y ffordd orau o weithredu camau'n ymarferol.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl

- Dechreuodd y Comisiwn trwy ystyried cynulleidfada darged y strategaeth. Nododd gyfeiriad yn y ddogfen at y 'gymuned addysg' a holi pa gymuned addysgwyr a oedd yn bodoli mewn gwirionedd yng Nghymru. Trafododd aelodau'r angen i ysbrydoli cymuned o ymarferwyr er mwyn cyflawni nodau cyffredinol. Dywedodd y byddai sicrhau ymgysylltu parhaus â'r strategaeth yn hollbwysig i'w llwyddiant.
- I'r perwyl hwn, hyrwyddodd y Comisiwn dull ar gyfer clywed llais proffesiynol athrawon. Croesawodd dull cydweithredol Llywodraeth Cymru o ddiwygio'r cwricwlwm, ond cwestiynodd a oedd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fforwm proffesiynol o athrawon at ei defnydd er mwyn trafod datblygiad. Fodd bynnag, roedd aelodau'n cydnabod y tensiwn sy'n bodoli rhwng y ffaith fod Llywodraeth Cymru'n darparu addysg ac yn gadael y proffesiwn i arwain.
- Ystyriai aelodau fod "goddefedd" y proffesiwn addysgu yn broblem sylweddol. Yn hanesyddol, roedd athrawon, meddent, yn gyfarwydd â chael pethau wedi eu gwneud iddynt ac yn aml roedd ymdopi â mwy o gyfrifoldeb yn anodd iddynt. Ond nodwyd nad yw Cymru ar ei phen ei hun yn wynebu'r her hon a bod "pob gwlad yn nwyrain Ewrop yn cael traferth gwneud i'r proffesiwn ei symblu ei hun". Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod y proffesiwn addysgu wedi dioddef yn fwy cyffredinol oherwydd "diwylliant o ddirymuso dysgu".
- Gofynnodd y Comisiwn pa wobr sy'n bodoli ar gyfer arloesi ar lawr dosbarth, ac a ellid gwneud mwy i gymell dulliau newydd o addysgu a dysgu. Nododd yr aelodau, er y caiff ysgolion eu hannog yn fwy ac yn fwy i gymryd risgiau a rhoi cynnig ar wahanol bethau, yn aml fe'u llesteirir gan oruchwyliaeth arolygu gosbol a haenau o atebolrwydd. Arddelodd y Comisiwn symudiad i ffwrdd o'r hen "feddylfryd oddi uchod" at dull mwy cydweithredol, gan alluogi athrawon i fynd i'r afael yn fwy ac yn fwy â'u harfer o ddydd i ddydd. Yn ogystal, rhybuddiodd yr aelodau y byddai arloesi'n arwain yn anochel at fethiant – a byddai angen i Lywodraeth Cymru sylweddoli y byddai gofyn iddi ymdrin â hyn.
- Ystyriodd y Comisiwn fanteision cyflwyno cynllun gwobrwyon, a fyddai'n debyg i'r un a ddefnyddiai'r proffesiwn meddygol. Gwnaeth gymariaethau â Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol (CEA), cynllun a fwriadwyd ar gyfer cydnabod a gwobrwyo'r ymgynghorwyr sy'n cyfrannu'r mwyaftuag ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion ac i wella'n barhaus wasanaethau'r GIG. Mae'r cynllun cymhelliant yn caniatáu i ddoctoriaid ennill arian ychwanegol ar ben eu cyflog sylfaenol am waith neu ymchwil rhagorol. Gweinyddir gwobrau efydd, arian, aur a phlatinwm gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar CEA. Mae tri is-bwyllgor ar ddeg yn asesu'r ceisiadau.
- Nododd aelodau nad oedd fawr ddim sôn yn strategaeth addysg Llywodraeth Cymru am bartneriaid allanol – a'r rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysgu plant. Ystyriai'r Comisiwn y byddai'n dda bod y strategaeth yn cydnabod yr holl chwaraewyr yn yr ymdrech i godi safonau.
- Holodd yr aelodau a oedd angen i Gymru gael corff proffesiynol ar gyfer addysgu. Argymhellent y byddai fframwaith mwy strwythuredig i gefnogi datblygiad athrawon yn fuddiol yng nghydestun diwygio'r system gyfan. Yn yr un modd, roedd y Comisiwn yn amau a oedd unrhyw sgaffaldau yn eu lle i ddatblygu athrawon yn arweinwyr y dyfodol. Nododd y dylai'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol helpu yn hyn o beth.
- Awgrymodd y Comisiwn fod angen rhagor o ymchwil gweithredol ar draws y system addysg. Ond cwestiynai i ba raddau y byddai modd i athrawon gynnal yr ymchwil hwn. Dywedodd yr aelodau fod angen i athrawon gael rhan weithredol yn y gwaith o bennu'r agenda ymchwil yng Nghymru a rhaid bod iddynt rôl allweddol wrth ei gyrru ymlaen. Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud y tu allan i addysg uwch a thrwy lwybrau mwy traddodiadol, ond yn aml ni chaiff yr ymchwil hwn ei barchu na'i ddefnyddio'n gywir. Awgrymodd y dylai prifysgolion adael i ysgolion fanteisio ar eu hymchwil, o ystyried nad oes unrhyw "seilwaith ysgolheigaidd" y tu allan i amgylchedd prifysgol. Ystyriai aelodau fod cynnal ymchwil yn un ffordd o hyrwyddo cydweithredu o ysgol i ysgol. Dywedent y dylai fod rhaid i ysgolion ddarparu mynediad i gyfleusterau perthnasol – ac awgrymwyd y posibilrwydd o wneud pob pennaeth mewn rhanbarth yn un o gymrodyr y brifysgol, gyda mynediad llawn i ymchwil y brifysgol.
- Holodd y Comisiwn i ba raddau yr oedd athrawon yn "llythrennog o safbwynt data", a pha mor alluog yr oeddent wrth ddechongli data'n effeithiol. Galwodd yr aelodau ar bartion sydd â diddordeb i gymell ymchwil a chyfathrebu'n gywir y manteision y gall hyn ei sicrhau i arfer ar lawr dosbarth. Cwestiynwyd yr arian a oedd ar gael i ysgolion ar gyfer ymchwil gan awgrymu'r posibilrwydd o gyflwyno grant ymchwil a datblygiad penodol. Dywedodd y Comisiwn y dylai fod yn un o ofynion awdurdodau addysg lleol a chonsortia rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant data ystadegol sylfaenol i staff.
- Gwahoddwyd aelodau i ystyried Changemaker Program Awstralia yn fframwaith posibl ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a dysgu proffesiynol. Profiad dysgu gweithredol i addysgwyr yw'r Changemaker Program i addysgwyr sy'n barod i godi yn eu taith ym maes arweinyddiaeth a gyrru newidiadau cadarnhaol yn eu hysgolion. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ymchwil gydag addysgwyr ac arweinwyr systemau ledled y byd ac mae'n alinio gyda Fframwaith Cymwysterau Awstralia yn gwrs Lefel 9, gan ganiatáu ar gyfer credydau tuag at raglenni Meistri mewn nifer o sefydliadau trydyddol. Mae'r profiad wedi ei seilio mewn dysg ymarferol ddefn gyda nifer o gydrannau sy'n cyfrannu.
- Rhybuddiodd y Comisiwn na ddylai llunwyr polisi anghofio gofyn i blant a phobl ifanc sut i wella'r dysgu yn eu hysgolion. Cwynai'r aelodau am "lais anghofiedig" y rhai sy'n mynd trwy'r system addysg ar hyn o bryd.
- Nododd yr aelodau fod her ledled y DU wrth recriwtio athrawon newydd i'r proffesiwn. Mae'r broblem hefyd i'w themlo yng Nghymru lle mae'r niferoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau hyfforddiant dysgu wedi disgyn. Ystyriwyd bod y pwysigrwydd o wneud addysgu'n fwy deniadol i raddedigion a'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn hanfodol.
- Croesawodd y Comisiwn dull cydweithredol Llywodraeth Cymru o ddiwygio'r cwricwlwm. Ond rhybuddiodd am y goblygiadau negyddol posibl a fyddai'n deillio o'r model 'Arloesi'. Awgrymwyd y gallai dewis ysgolion i ddod yn Arloeswyr greu risg o eithrio rhai nad ydynt yn Arloeswyr. Cynigiodd yr aelodau y dylid annog ysgolion i fod yn 'arloesol' mewn ffyrdd eraill, ac na ellid ehangu'r model Arloesi y tu hwnt i ddatblygu'r cwricwlwm.
- Ystyriodd yr aelodau'r technolegau newydd sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu. Fe'u cyflwynwyd i 'ClassDojo', sef app cyfathrebu ar lawr dosbarth sy'n boblogaidd yn yr Unol Daleithiau ac a ddefnyddir i rannu adroddiadau rhwng rhieni ac athrawon. Mae athrawon yn olrhain ymddygiad myfyrwyr ac yn lanlwytho lluniau neu fideos. Mae'r system arddull gemau'n dysgu sgiliau datblygu drwy adborth amser go iawn. Mae'r rhaglen wedi ei chyfieithu i 35 o ieithoedd, ac mae wedi ei defnyddio mewn 180 o wledydd a chan 90% o'r dosbarthiadau ysgol yn yr Unol Daleithiau.
- Ystyriodd y Comisiwn y cysylltiad tenau sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng asesu, gwerthuso ac atebolrwydd. Cwestiynodd yr aelodau a oedd lle wrth symud tuag at asesu sy'n seiliedig ar bortffolio yn enwedig yng nghyd-destun Dyfodol Llwyddiannus a'r cynllun cwricwlwm a hyrwyddwyd gan yr Athro Graham Donaldson.
- Roedd dulliau atebolrwydd yn bwnc trafodaeth sylweddol. Ystyriai'r Comisiwn agwedd newydd ac arloesol at atebolrwydd a oedd yn cynnwys mesur mewnbwn, yn wahanol i allbwn. Roedd hi'n well gan aelodau ystyried sut y mae ysgolion yn creu'r amodau i greu plant brwd ac iach, yn hytrach na defnyddio'r mesurau mwy cosbol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylid cyfyngu atebolrwydd i'r hyn y gall ac y dylai ysgolion fod yn atebol amdano. Meddai'r aelodau mai 'datganiadau amgylchedd' oedd un o'r posibilidadau hyn, ac ysgolion yn cael eu hasesu ar sail yr amodau a grëir ganddynt. Gellid barnu ysgolion yn well, meddent, yn ôl a ydynt yn creu'r amodau i hwyluso dysgu ai peidio.
- Cwynai'r Comisiwn am yr amrywiaeth eang sy'n bodoli rhwng ysgolion, yn enwedig y rhai sydd mewn ardaloedd gwledig a threfol. I ddadwneud effaith daearyddiaeth – ac argaeledd adnoddau – ar berfformiad, cynigiodd yr aelodau y dylid ariannu llwyfannau digidol yn well. Byddai hyn, meddent, yn cefnogi datblygiad ysgolion bach, yn enwedig. Awgrymodd y Comisiwn y gallai Cymru ddysgu oddi wrth wledydd eraill gydag ysgolion mewn llawer o wahanol gyd-destunau, lawer o filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Ystyriai fod yr arfer mewn gwledydd megis Canada, yr Unol Daleithiau ac Awstralia yn haeddu ei ddadansoddi'n fanylach. Cyfeiriwyd at Estonia, yn enwedig, yn esiampl o arfer da am ei defnydd ar dechnoleg.

Meddyliau i gloi ac argymhellion

- Anogodd yr aelodau'r llunwyr polisi i ddatblygu "naratif cyfoethocaf" am yr hyn sydd i'w werthfawrogi am addysg yng Nghymru. Dywedwyd y byddai hyn yn cynorthwyo gyda chreu gweledigaeth fwy cadarnhaol ar gyfer y system addysg yn ei chyfanrwydd, a helpu i leihau cyhoeddusrwydd a'r canfyddiad poblogaidd nad yw addysg Cymru cystal ag y gallai fod. Yn yr un modd, pwysleisiai'r Comisiwn y byddai angen paratoi cyhoedd Cymru ar gyfer cwmposibl mewn canlyniadau TGAU a lefel-A wrth i'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd fynd yn ei flaen. Ystyriai aelodau fod pris i'w dalu weithiau am arloesi a "cheisio pethau newydd".
- I'r perwyl hwnnw, dewisodd y Comisiwn ganolbwyntio ar yr hyn sy'n nodedig i Gymru. Galwodd ar bobl Cymru i ddathlu a hyrwyddo popeth y mae'n ei wneud yn dda – ac i ennyn cariad at ddysgu ym mhob un o'i dysgwyr. Ystyriai aelodau ei bod hi'n hanfodol adeiladu hyder y cyhoedd yn system addysg Cymru. Byddai cyhoeddiadau diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ategu'r farn honno. Fodd bynnag, pwysodd y Comisiwn am gofio y gall "unrhyw naratif eithrio yn ogystal â chynnwys".
- Nodwyd dyfodiad y Rhaglen ar gyfer Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA). Arolwg tair blynedd yw PISA sy'n anelu at werthuso systemau addysg ledled y byd trwy brofi sgiliau a gwybodaeth myfyrwyr 15 oed. Yn 2015 safodd dros hanner miliwn o fyfyrwyr, a oedd yn cynrychioli 28 miliwn o ddisgyblion 15 oed mewn 72 o wledydd ac economïau, y prawf dwy awr y cytunwyd arno'n rhyngwladol. Aseswyd myfyrwyr mewn gwyddoniaeth, mathemateg, darllen, datrys problemau'n gydweithredol a llythrennedd ariannol. Mae cyfres o ganlyniadau gwael yng Nghymru wedi denu cryn dipyn o gyhoeddusrwydd negyddol a rhybuddiodd y Comisiwn lunwyr polisiâu fod yn barod am ragor o newyddion drwg pan gaiff y canlyniadau nesaf eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019. Dywedodd yr aelodau y byddai angen i swyddogion Cymru wybod beth y gallent ei ateb wrth feirniaid PISA – a bod ganddynt negeseuon cryf, cadarnhaol wrth law i godi ysbryd y Cymry rhag ofn na fydd y canlyniadau'r hyn a ddisgwylid.

- Cwestiynodd y Comisiwn a allai llunwyr polisi fynegi'r hyn y bydd y cwricwlwm cenedlaethol newydd yn ei olygu i fyfyrwyr o wahanol oedrannau. Awgrymodd yr aelodau y gallai fod yn ddefnyddiol dadansoddi goblygiadau diwygio'r cwricwlwm ar gyfer gwahanol grwpiau dysgwyr, i gefnogi'r broses newid ac ennyn brwdfrydedd ar draws y system.
- Rhannwyd yr amserlin newydd ar gyfer gweithredu cwricwlwm cenedlaethol newydd Cymru â'r Comisiwn. Croesawai'r aelodau y cyflwyniad graddol, ond gofynnwyd a fyddai'n gwneud synnwyr rhoi cyfle i ysgolion weithredu'r cwricwlwm yn gynt gan ei bod mewn sefyllfa ddigon cryf i wneud hynny. Awgrymwyd "na ddylem rwystro'r rhai sydd am symud ymlaen yn gynt" a dylid cefnogi ysgolion i wneud hynny pan fo'n briodol.
- Cwestiynodd y Comisiwn a ellid cynnwys iaith, diwylliant a'r celfyddydau yn amlycach yng 'Nghenhadaeth ein Cenedl' ar gyfer addysg yng Nghymru.

Ar sail ffrwyth trafodaeth y tri chyfarfod, gofynnwyd i'r Comisiwn gofnodi beth, yn ei farn ef, oedd cryfderau a gwendidau system addysg Cymru. Ni wnaed hyn at ddibenion beirniadol, ond yn hytrach i gefnogi partion a oedd â diddordeb yn yr agenda ddiwygio gyda safbwynt mwy gwrthrychol. Lluniwyd y pwyntiau bwled canlynol o'r dystiolaeth ar lafar ac ar bapur a oedd yn deillio o gyfarfod y Comisiwn yn Llundain:

- Cwestiynodd yr aelodau a oedd "Cymru yn gwybod beth mae Cymru yn ei wybod" gan hyrwyddo camau mwy strategol i rannu arfer da. Galwasant am i'r system yn ei chyfanrwydd fod yn fwy medrus wrth ddathlu ysgolion ac athrawon gorau Cymru – ac i beidio ag ofni mynd i'r afael â'r amrywiad sy'n bodoli rhwng darparwyr. Dywedodd y Comisiwn y gallai Cymru edrych at wledydd megis Singapore o ran "creu cenedl" a sut i ddatblygu hunaniaeth gref. Awgrymodd y gellid alinio penderfyniadau ynghylch adfywio yn nes at addysg, wrth angori ysgolion yn fwy priodol yn eu cymunedau.
- Ystyriai'r aelodau fod ymdeimlad cryf o le, cymuned hunaniaeth a chydlyn, ac ymrwymiad i lesiant yn rhai o gryfderau amlwg system addysg Cymru.
- Teimlai aelodau ymdeimlad cryf o falchder cenedlaethol yn nhreftadaeth a hanes, diwylliant ac iaith Cymru, a byddai modd adeiladu'n well ar eu harwahanrwydd i gefnogi gwelliannau.
- Cymeradwyodd aelodau egin gonsensws o gwmpas cwricwlwm cenedlaethol newydd Cymru, ei Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth, a'i Hacademi Genedlaethol newydd ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.
- Croesawodd aelodau gyhoeddi Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl am helpu i ddarparu uchelgais, dyhead a ffocws. Nid oedd hyn, meddent, yn amlwg ar yr olwg gyntaf yn y dogfennau a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban ac mae'n bosibl i Gymru ddangos y ffordd.
- Ystyriai'r aelodau fod diffyg cydlyniant strwythurol yn bwynt negyddol sylweddol, gyda gormod o amrywiad ac anghysondeb wrth ymarfer ymhlith consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr addysg allweddol eraill ar draws Cymru.

- Cwynodd yr aelodau am ddiffyg hyder wrth nodi a dynodi'r ysgolion gorau ac ysgolion i arwain gwelliannau ysgol – gan hyrwyddo proses a oedd yn debyg i'r "gorau yn helpu'r gweddill". Galwasant ar addysgwyr ar draws y system i ddathlu'n well yr arfer addysgol ardderchog neu 'o safon ryngwladol' sydd i'w gael yng Nghymru. Dywedent, o ran safonau, mae angen codi'r safon i hyrwyddo rhagoriaeth y system wrth gau'r bylchau ar yr un pryd. Yn ôl yr Aelodau, mae angen i Gymru "dyfu'r brig" er mwyn rhoi hwb i'r system.
- Er ei fod yn un clodwiw, ystyriai'r aelodau y gallai'r model 'arloesi' rannu pobl oni bai fod ysgolion nad ydynt yn rhai 'arloesi' yn cael cyfle i gyfrannu i'r agenda ddiwygio mewn ffordd arall.
- Er ein bod yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae ysgolion yn ei chwarae wrth addysgu cenedlaethau'r dyfodol, nododd yr aelodau na allent wneud hynny ar eu pennau eu hunain a bod angen cymorth. Galwodd y Comisiwn, felly, ar bob chwaraewr yn system Cymru – gan gynnwys rhieni, llunwyr polisi a'r gymuned addysg ehangach – i rannu cyfrifoldeb am wella safonau.
- Pwysleisiodd y Comisiwn unwaith eto'r pwysigrwydd o wneud addysgu'n fwy deniadol i raddedigion a'r rhai sy'n gadael yr ysgol wrth i'r "argyfwng recriwtio" presennol barhau.
- Galwodd yr aelodau ar y prifysgolion i roi mwy o gyfle i ysgolion fanteisio ar eu hymchwil. Dywedent y dylai fod yn orfodol i brifysgolion ddarparu ysgolion a allai fanteisio ar y cyfleusterau perthnasol – gydag enwi cymrodyr prifysgol i gefnogi'r gwaith o ledu papurau ynghylch dysgu proffesiynol a'r arfer gorau.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

www.athrofa.cymru